*Ysgol Plas Coch*
*Ffordd Stansty*
*Wrecsam*
*LL11 2BU*
*Ffôn: 01978 311198*

Ysgol Plas Coch
Stansty Road
Wrexham
LL11 2BU
Tel: 01978 311198

# YSGOL PLAS COCH

**MR OSIAN JONES BA**
***Pennaeth* / Head Teacher**

*E-bost*/E-mail: **mailbox@plascochpri.wrexham.sch.uk**
*Gwefan*/Website: www.ysgolplascoch.cymru

Annwyl Rieni/Gwarchodwyr

Wrth inni nesáu at ddiwedd y flwyddyn Ysgol, rydym yn falch iawn o gynnig cyfle i'r disgyblion fwynhau ymwleiad diwedd tymor i 'SC2', Rhyl ar ddydd Mercher, 15fed o Orffennaf. Bydd yr ymweliad yn digwydd yn ystod oriau ysgol arferol, a bydd y disgyblion yn teithio i'r lleoliad ac yn ôl mewn pryd i fynd adref. Rydym yn falch o hysbysebu bod cost y cludiant wedi'i ariannu'n hael gan Gymdeithas Rhieni ac Athrawon.

Cost y daith yw £15 y plentyn, sy'n cynnwys mynediad i'r Parc Dŵr, 'Splash Pad' a gemau 'Ninja TAG'.

**Dylid talu trwy ParentPay erbyn Dydd Mercher, 17eg o Fehefin fan bellaf.**

Dylai'r disgyblion ddod i'r ysgol yn eu gwisg ysgol fel arfer gyda gwisg nofio a thywel mewn bag.

I roi caniatâd i'ch plentyn fynychu'r daith, rhaid cwblhau'r ffurflen ar y dudalen isod a'i dychwelyd i'r ysgol erbyn 19/6/26. Yn anffodus, efallai na fyddwn yn gallu cynnwys plant os nad yw eu ffurflenni caniatâd a'u taliadau wedi derbyn erbyn y dyddiad hwn.

Rydym yn sicr y bydd y disgyblion yn mwynhau'r cyfle cyffrous hwn i ddathlu blwyddyn llwyddiannus gyda'u ffrindiau a'u hathrawon. Os oes gennych unrhyw gwestiynau yghylch y daith, mae croeso i chi gysylltu â'ch athrawes dosbarth.

Yn gywir,

Athrawon Blwyddyn 5 a 6

---

Enw: ______________________________________________

Dosbarth: ___________________________________________

Rwyf am i fy mhlentyn fynychu'r ymweliad ac wedi talu'r £15 ar ParentPay ☐

Nid wyf am i fy mhlentyn fynychu'r ymweliad ☐

Hoffwn archebu pecyn bwyd o gegin yr ysgol

Ham ☐ Caws ☐ Tiwna ☐